# ADRODDIAD EFFAITH 2021

Swansea University
Prifysgol Abertawe



Prifysgol Abertawe

# MENTER MYFYRWYR

BYDD YN YSBRYDOLI | BYDD YN GYNNWYS | BYDD YN MENTER

Gan y **Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi**

# CYNNWYS


Y TÎM MENTERGARWCH 3.

CYFLYMU ENTREPRENEURIAETH 4.

EIN GWELEDIGAETH 4.

EIN CENHADAETH 5.

HYRWYDDO NEWID 5.

YMRWYMEDIG I GYMRU 5.

YMRWYMEDIG I'N MYFYRWYR 6.

YMRWYMEDIG I'N NODAU STRATEGOL 7.

RHYNGWEITHIO Â MYFYRWYR AR DRAWS YR HOLL DDISGYBLAETHAU 8.

THEMÂU CYFLYMU 9.

BUDDSODDIAD AR GYFER EIN BUSNESAU NEWYDD 10.

YMRWYMEDIG I STAFF 11.

DATBLYGU CYD-GWRICWLAIDD 12.

DATBLYGU STAFF 13.

YMRWYMEDIG I BARTNERIAID A RHANDDEILIAID 14.

GWEITHIO GYDA DARPARWYR CYMORTH RHANBARTHOL 16.

GWEITHIO MEWN CYDWEITHREDIAD LEDLED CYMRU 18.

EHANGU EIN CYRHAEDDIAD 20.

MYFYRWYR YN SIARAD AM EU BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT AC ENTREPRENEURIAETH 21.

ASTUDIAETHAU ACHOS: TUEDDIADAU NEWYDD YM MAES DECHRAU BUSNES 22.

DATHLU LLWYDDIANT 24.

BETH A DDYWEDODD EIN MYFYRWYR 26.

BETH EIN DWEUD CYDWEITHWYR 27.

RHESTR O FUSNESAU NEWYDD 2021 28.




# Y TÎM MENTERGARWCH

Mae'r Tîm Mentergarwch canolog yn rhan o'r Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS). Maent yn gyfrifol am helpu i weithredu rhaglen strategol Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru ac Entrepreneuriaeth Myfyrwyr Abertawe - Ein Hymagwedd Strategol 2018-23 ym Mhrifysgol Abertawe, drwy gefnogi myfyrwyr a graddedigion i fod yn fwy entrepreneuraidd a rhoi iddynt y meddylfryd, y profiadau a'r sgiliau angenrheidiol i ddechrau eu busnes eu hun, gyrfa lawrydd neu fenter gymdeithasol.

Cyflawnir hyn drwy gyngor ar fusnes ar ffurf ymgynghoriadau, gweithdai a mentrau sy'n darparu profiadau gwerthfawr ac yn helpu i greu cyfleoedd er mwyn iddynt gyflawni eu huchelgeisiau ar gyfer eu gyrfa hirdymor.

## AMDANOM NI...



**Emma Dunbar**
Pennaeth Ymgysylltu, Arloesi ac Entrepreneuriaeth



**Angus Phillips**
Swyddog Cymorth Mentergarwch



**Kelly Jordan**
Uwch-swyddog Cymorth Mentergarwch



**Paige Windiate**
Swyddog Cymorth Marchnata Mentergarwch

## CYSYLLTU Â NI


enterprise@swansea.ac.uk

myuni.swansea.ac.uk/cy/cyflogadwyedd-menter/menter-myfyrwyr/

Swansea University Enterprise


Enterprise_SwanUni

Swansea-university-enterprise

# CYFLYMU ENTREPRENEURIAETH

**Mae ein hymagwedd strategol at Entrepreneuriaeth Myfyrwyr (2018-2023)** wedi llywio ymgais ddiflino i wreiddio entrepreneuriaeth ar draws gwerthoedd, polisïau ac arferion Prifysgol Abertawe.

Rydym yn falch o gyflawni'r ymrwymiadau tymor hir a nodir yn y strategaeth hon, gan greu prifysgol entrepreneuraidd sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r agwedd arloesol i fod yn wirioneddol fentrus. Er gwaethaf wynebu llawer o heriau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ysbrydoli, ymgysylltu a darparu cymorth i gymuned entrepreneuraidd ddiflino sy'n tyfu, sydd am wneud gwahaniaeth a hybu ffyniant economaidd yn y rhanbarth.



# EIN GWELEDIGAETH

**Mae meithrin doniau arloesol ac entrepreneuraidd yn nodwedd arbennig o brofiad y myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe, gan drawsnewid bywydau a dyfodol pobl drwy greu a meithrin cymuned entrepreneuraidd gysylltiedig.**




# EIN CENHADAETH

1. **Gwreiddio ecosystem a diwylliant entrepreneuraidd effeithiol a dynamig**
2. **Hyfforddi graddedigion entrepreneuraidd ac arloesol y mae galw mawr amdanynt, o bob Cyfadran**
3. **Cael ein cydnabod yn genedlaethol fel Prifysgol sy'n meithrin mentergarwch ein myfyrwyr**


# HYRWYDDO NEWID

Mae ein Grŵp Datblygu Strategol Entrepreneuriaeth yn dod â staff allweddol a myfyrwyr hyrwyddo o bob rhan o'r Brifysgol ynghyd er mwyn cyflymu'r agenda entrepreneuriaeth ac ysgogi newid mewn diwylliant, drwy gydweithredu a rhannu arfer gorau wrth gyflawni rhaglen integredig o gymorth i fyfyrwyr yn nhair cyfadran y Brifysgol.



# YMRWYMEDIG I GYMRU

Yn y cyd-destun strategol ehangach i Gymru, rydym yn hollol ymrwymedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb - Cynllun Gweithredu Economaidd a Gwarant Llywodraeth Cymru i Bobl Ifanc, sy'n rhaglen uchelgeisiol â'r nod o roi cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb dan 25 oed yng Nghymru. At hyn, rydym yn ymroddedig i'r mudiad "Creu Sbarc" sy'n annog yn rhagweithiol entrepreneuriaeth a ysgogir gan arloesi.



Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwymo'n llawn i Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, gan gydnabod ei bod yn fframwaith hynod effeithiol ar gyfer cefnogi a hyrwyddo mentergarwch yn y Brifysgol a chyda rhanddeiliaid allanol yn lleol ac yn genedlaethol.

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi, hyrwyddo a chyfoethogi diwylliant ac iaith Cymru yn rhagweithiol, gan ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol i bawb.

# YMRWYMEDIG I'N MYFYRWYR



Rydym wedi creu fframwaith i gefnogi "Taith Entrepreneuraidd" ein myfyrwyr drwy ddarparu amgylchedd o gynhwysiant a hygyrchedd, er mwyn annog busnesau newydd a helpu ein myfyrwyr i feithrin eu sgiliau a'u meddylfryd entrepreneuraidd a'u gwytnwch.

## 8,350 O FYFYRWYR YN CYFRANOGI

Cynyddu ymwybyddiaeth ac uchelgais ar gyfer entrepreneuriaeth drwy fentrau ymgysylltu wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, gan gynnwys; digwyddiadau gyrfaoedd a chyflogadwyedd, sgyrsiau sefydlu modiwlau coleg, digwyddiadau Undeb y Myfyrwyr, sgyrsiau Model Rôl a sgyrsiau entrepreneuriaeth.

## 2,308 O FYFYRWYR WEDI'U GRYMUSO

Darparu cyfleoedd dysgu entrepreneuraidd i fyfyrwyr drwy gyfres o weithdai, cystadlaethau, digwyddiadau hacathon, sesiynau dwys a mentrau entrepreneuraidd allgyrsiol a chyd-gwricwlaidd.

## MYFYRWYR HYFFORDDEDIG

Darparu mentora, cyngor un i un, modiwlau arloesi a sefydlu menter, mynediad at gyllid, cyfleoedd i brofi syniad busnes ('test trading'), lleoliadau gwaith entrepreneuriaeth, rhaglenni cyflymu a llawer mwy i helpu myfyrwyr i sefydlu a thyfu eu busnesau.

**743** O SYNIADAU WEDI'U DILYSU

**78** WEDI'U MEITHRIN I DDECHRAU

**47** O FUSNESAU WEDI EU SEFYDLU



# YMRWYMEDIG I'N NODAU STRATEGOL

Ers lansio ein Hymagwedd Strategol at Entrepreneuriaeth Myfyrwyr (2018-2023), mae Cyllid Grant Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru (2019-2021) wedi bod yn rym ysgogi hollbwysig wrth helpu i'n galluogi i wireddu ein cenhadaeth strategol; i wreiddio cymuned a diwylliant entrepreneuraidd deinamig ar draws y sefydliad, meithrin graddedigion arloesol a bod yn adnabyddus yn genedlaethol fel prifysgol entrepreneuraidd ragorol Adlewyrchir hyn yn ein cyflawniadau yn ystod y tair blynedd diwethaf.

### YMGYSYLLTU

Cyfanswm y myfyrwyr a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2019-21 |
|---|---|---|---|---|
| Targed Ymgysylltu | 4,076 | 4,076 | 4,125 | 12,277 |
| **Wedi llwyddo i Ymgysylltu** | **9,010** | **5,102** | **8,350** | **22,462** |

### GRYMUSO

Cyfanswm y myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu capasiti entrepreneuraidd.

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2019-21 |
|---|---|---|---|---|
| Targed Ymgysylltu | 407 | 407 | 413 | 1,227 |
| **Wedi llwyddo i Ymgysylltu** | **1,575** | **2,320** | **2,308** | **6,203** |

### GALLUOGI

Cyfanswm y myfyrwyr yn dilysu syniadau busnes neu'n profi syniad busnes.

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2019-21 |
|---|---|---|---|---|
| Targed Ymgysylltu | 180 | 220 | 260 | 660 |
| **Wedi llwyddo i Ymgysylltu** | **425** | **1,118** | **743** | **2,286** |

### ARFOGI

Cyfanswm y myfyrwyr a graddedigion yn derbyn cymorth i ddechrau busnes.

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2019-21 |
|---|---|---|---|---|
| Targed Ymgysylltu | 100 | 120 | 140 | 360 |
| **Wedi llwyddo i Ymgysylltu** | **98** | **98** | **78** | **274** |

### GALLUOGI

Cyfanswm y Busnesau a sefydlwyd.

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2019-21 |
|---|---|---|---|---|
| Targed Ymgysylltu | 28 | 34 | 39 | 101 |
| **Wedi llwyddo i Ymgysylltu** | **40** | **50** | **47** | **137** |

# RHYNGWEITHIO Â MYFYRWYR AR DRAWS YR HOLL DDISGYBLAETHAU



| | YMGYSYLLTU | GRYMUSO | DILYSU SYNIADAU | WEDI'U MEITHRIN | WEDI DECHRAU |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol** | **64%** | **42%** | **54.5%** | **47%** | **51%** |
| Y Celfyddydau a'r Dyniaethau | 5% | 8% | 2% | 13% | 13% |
| Y Gyfraith | 1% | 1% | 0.5% | 1% | 0% |
| Rheoli | 58% | 33% | 52% | 33% | 38% |
| **Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg** | **31%** | **47%** | **38.5%** | **30%** | **23.5%** |
| Peirianneg | 28% | 43% | 35% | 20% | 15% |
| Gwyddoniaeth | 3% | 4% | 3.5% | 10% | 8.5% |
| **Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd** | **5%** | **11%** | **7%** | **23%** | **25.5%** |
| Meddygaeth | 2% | 7% | 4% | 11% | 8.5% |
| Gwyddorau Dynol ac Iechyd | 3% | 4% | 3% | 12% | 17% |

## YMAGWEDD GYFUNOL AT DDARPARU

Wrth i bandemig COVID-19 barhau yn 2021, gwnaethom ddatblygu ymagwedd gyfunol at ddysgu ac addysgu ar draws y Brifysgol, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, a arweiniodd at ein themâu cyflymu. Gwnaeth yr ymagwedd gyfunol ein galluogi i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb ac yn rhithwir yn ôl yr agen, gan helpu ein myfyrwyr a'n graddedigion diweddar i ddefnyddio ein cymorth a'n gwasanaethau yn ddiogel, er mwyn cynyddu hyblygrwydd ac er mwyn cyd-fynd â'u hanghenion unigol.



# THEMÂU CYFLYMU



## 1. CREU CYMUNEDAU O ENTREPRENEURIAID

Wrth ddarparu platfform i alluogi ein myfyrwyr i arwain gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar fentergarwch, rydym wedi creu cymuned gynhwysol, hygyrch a chysylltiedig, sy'n addysgu ac yn ysbrydoli eu cymheiriaid mewn cymdeithasau myfyrwyr unigol, yn annog cydweithredu ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach o randdeiliaid allanol.

**3** O FENTRAU DAN ARWEINIAD MYFYRWYR

**8** MYFYRWIWR AR INTERNIAETH WEDI'U CYFLOGI

**53** O DDIGWYDDIADAU I FEITHRIN RHWYDWEITHIAU A CHYMUNEDAU

## 2. BLAENORIAETHAU A CHYDWEITHREDU RHANBARTHOL

Drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, busnesau a sefydliadau addysg rhanbarthol, gwnaethom nodi a chreu nifer o gyfleoedd i gydweithio'n rhanbarthol, sy'n cefnogi busnesau newydd a chymunedau lleol, wrth wella meddylfryd, sgiliau a rhwydweithiau ein myfyrwyr. Wrth i lawer o ddigwyddiadau aros ar-lein eleni, gwnaethom archwilio a defnyddio platfformau rhithwir newydd ac arloesol, megis Remo a Glimpse, er mwyn darparu amgylchedd dysgu diogel, rhyngweithiol a chreadigol.

**1** HACATHON CENEDLAETHOL

**9** DIGWYDDIAD RHWYDWEITHIO RHANBARTHOL

**11** O DDIGWYDDIADAU A MENTRAU MENTERGARWCH A ARWEINIR GAN Y GYFADRAN

## 3. SEFYDLU A THYFU

Gwnaethom ddatblygu cyfleoedd arloesol i nodi a chefnogi myfyrwyr â diddordeb mewn entrepreneuriaeth, ac i helpu'r rhai â busnes eisoes i dyfu, gan gynnwys grantiau ar gyfer sefydlu, ymgynghoriadau cyngor ar fusnes, gweithdai rhyngweithiol, mynediad at interniaethau mentergarwch, bŵtcamps tyfu busnes, ymgynghoriadau entrepreneur preswyl, a lleoedd ar ein rhaglen gyflymu.

**2** GYSTADLEUAETH FLYNYDDOL

**3** RHAGLEN SEFYDLU

**5** MYFYRIWR O ABERTAWE AR "FARCHNAD MYFYRWYR CYMRU"

**14** MYFYRIWR AR RAGLEN GYFLYMU SEFYDLU BUSNES

**17** LLEOLIAD GWAITH ENTREPRENEURAIDD

**23** O FYFYRWYR WEDI CYFLWYNO YN Y 'BIG PITCH' RHITHWIR

**32** O FYFYRWYR MEWN BŴTCAMPS BUSNES

**56** O FYFYRWYR ABERTAWE WEDI COFRESTRU AR GYFER WYTHNOS SEFYDLU BUSNES YR HAF

# BUDDSODDIAD AR GYFER EIN BUSNESAU NEWYDD

**Wedi codi £45,060 mewn buddsoddiad i gefnogi busnesau newydd drwy bartneriaethau**

**£24,000** gan *Santander Universities* i gefnogi'r rhai sy'n sefydlu busnes

**£20,000** gan *Santander Universities* i gefnogi hyfforddiant sgiliau ychwanegol

**£700** gan *gyn-fyfyrwyr* i gefnogi gweithgareddau mentergarwch

**£360** o fuddsoddiad ymarferol gan y sector preifat





# YMRWYMEDIG I STAFF

Mae'r Brifysgol yn parhau i feithrin ei chymunedau mewnol, gan weithio ar y cyd i greu synergeddau a chysylltiadau ledled tair cyfadran y Brifysgol a'i hadrannau proffesiynol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cefnogi ein gilydd i rannu arferion gorau, adnoddau ac addysgu ar draws cyfadrannau, er mwyn chwalu ffiniau a seilos traddodiadol i rymuso eraill i ddarparu entrepreneuriaeth.

**75**

**HYRWYDDWYR STAFF** CRONEDIG



| O UNDEB Y MYFYRWYR | O'R GWASANAETHAU PROFFESIYNOL | O'R CYFADRANNAU |
|---|---|---|
| 10 | 20 | 45 |

# DATBLYGU CYD-GWRICWLAIDD

Ar hyn o bryd, ceir **32 modiwl sy'n canolbwyntio ar Fentergarwch, Entrepreneuriaeth neu Arloesi** a **chofrestrodd 1,011 o fyfyrwyr** ar eu cyfer yn ystod 2020/21 (sydd wedi cynyddu o 855 yn 2019/20). At hynny, mae **3,725 o fyfyrwyr eraill yn cyfranogi mewn gweithgareddau entrepreneuriaeth** yn eu modiwlau.

**32 MODIWL**

**CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL**

**19**

- **17** YN YR YSGOL REOLAETH
- **2** YN YSGOL Y GYFRAITH HILLARY RODHAM CLINTON

**Y GYFADRAN GWYDDONIAETH A PHEIRIANNEG**

**8**

- **4** YN YR YSGOL PEIRIANNEG A GWYDDORAU CYMHWYSOL
- **2** YN YR YSGOL MATHEMATEG A CHYFRIFIADUREG
- **2** YN YR YSGOL PEIRIANNEG AWYROFOD, SIFIL, DRYDANOL, GYFFREDINOL A MECANYDDOL

**Y GYFADRAN MEDDYGAETH, IECHYD A GWYDDOR BYWYD**

**5**

- **3** YN YR YSGOL FEDDYGAETH
- **1** YN YR YSGOL SEICOLEG
- **1** YN YR YSGOL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL



# DATBLYGU STAFF

Gwnaeth y tîm Mentergarwch ac aelodau o'r grŵp Datblygu Strategol Entrepreneuriaeth gymryd rhan yn **EntreTime, sef menter datblygu addysg entrepreneuriaeth newydd** sy'n ceisio gwella sgiliau addysgwyr ac academyddion o 4 sefydliad addysg uwch ledled Ewrop, gan gynnwys; Prifysgol Gwyddorau Cymhwysol Munich, Prifysgol Gwyddorau Cymhwysol Tampere, JA Bwlgaria a Phrifysgol Abertawe, a wnaeth beilota'r rhaglen.

Gwnaeth y grŵp Datblygu Strategol Entrepreneuriaeth gymryd rhan mewn gweithdy **"Meithrin Graddedigion Entrepreneuraidd"**, dan arweiniad Uwch-swyddog Cymorth Mentergarwch y Tîm Mentergarwch, a wnaeth roi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt er mwyn grymuso a chefnogi graddedigion sydd â diddordeb mewn entrepreneuriaeth.

Rydym wedi parhau i **annog a chefnogi ein cydweithwyr i wreiddio entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm**, drwy fynd i weithdai EEUK a defnyddio eu hadnoddau, defnyddio'r Pecyn Cymorth ETC i ddatblygu modiwlau, yn ogystal â rhannu arferion gorau yn rheolaidd a chydweithio â'n Grŵp Datblygu Strategol Entrepreneuriaeth.

Rydym yn parhau i **adolygu ein Llwybr Gyrfa Academaidd** er mwyn cydnabod gweithgareddau addysgu ac ymgysylltu entrepreneuraidd.

Datblygodd y tîm Mentergarwch uned ar draws y campws sydd wedi cael ei chynnwys yn y **Cwrs Datblygu Gyrfa, "Dechrau eich busnes eich hun"**, sy'n un o'r 16 uned sydd ar gael i baratoi myfyrwyr am yrfa. Ers ei lansio ym mis Awst 2020, mae 115 o fyfyrwyr wedi dewis dilyn yr uned.

# YMRWYMEDIG I BARTNERIAID A RHANDDEILIAID

Ym Mhrifysgol Abertawe, mae gennym ymdeimlad o gyd-fwriad a rennir ac rydym yn gweithredu fel 'cymuned o gymunedau', wedi'i seilio ar ymddiriedaeth ac atebolrwydd personol. Rydym yn arloesol ac yn ddynamig, ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu arweinyddiaeth entrepreneuraidd ar gyfer heriau rhanbarthol a byd-eang.





## Prifysgolion Santander

Santander Universities

Fel un o 85 o brifysgolion Santander, rydym yn derbyn cyllid i gefnogi Addysg, Cyflogadwyedd ac Entrepreneuriaeth. Derbyniodd y Tîm Mentergarwch £24,000 i gefnogi myfyrwyr i ddechrau busnesau, sy'n cael ei ddyfarnu drwy weithgareddau megis cystadlaethau cyflwyno syniadau a rhaglenni cyflymu.

I gydnabod y gwaith eithriadol sy'n cael ei wneud yn Abertawe, dyfarnodd Prifysgolion Santander £20,000 ychwanegol drwy eu grant datblygiad proffesiynol parhaus, "Santander's CPD500", a wnaeth ein galluogi i ddyfarnu cyllid grant ychwanegol i 40 o fyfyrwyr i'w fuddsoddi mewn gwella eu datblygiad proffesiynol, drwy feithrin sgiliau newydd ac ennill cymwysterau.

**£24,000 I GEFNOGI MYFYRWYR I DDECHRAU BUSNESAU**

**£20,000 GRANT DATBLYGIAD PROFFESIYNOL**

## THE BIG PITCH 2021

Mae ein cystadleuaeth flaenllaw flynyddol i fusnesau newydd, The Big Pitch, yn rhoi cyfle i fyfyrwyr entrepreneuraidd i **gyflwyno eu syniadau busnes i gael cyllid gwerth hyd at £3,000** a roddwyd gan Santander Universities UK, yn ogystal â gwobrau ychwanegol. Yn ystod y digwyddiad rhithwir eleni, **cyflwynodd 23 o fyfyrwyr eu cysyniadau busnes** a **dyfarnwyd cyllid grant gwerth cyfanswm o £21,900 i 10 myfyriwr**, ynghyd â **2 leoliad gwaith entrepreneuraidd, 8 lle ar y rhaglen Gyflymu a 6 atgyfeiriad at AgorIP**, sef rhaglen arloesi Cymru gyfan y Brifysgol.



## Syniadau Mawr Cymru

Defnyddiwyd 30 o Fodelau Rôl i gefnogi ac annog entrepreneuriaeth ymhlith ein myfyrwyr a'n graddedigion, drwy sgyrsiau a digwyddiadau rhwydweithio sy'n ysbrydoli, gweithdai sefydlu busnes a thrafodaethau panel.

Syniadau Mawr Cymru

**30 FODELAU RÔL**

# GWEITHIO GYDA DARPARWYR CYMORTH RHANBARTHOL



Rydym yn uchelgeisiol ac rydym ni am wneud gwahaniaeth i fywydau a dyfodol ein myfyrwyr a'r gymuned, y gymdeithas a'r economi yn ehangach.

Rydym yn hollol ymrwymedig i weithio'n rhagweithiol gyda myfyrwyr fel partneriaid allweddol a chydweithwyr, mewn ymagwedd draws-ddisgyblaethol at addysg ac ymchwil, yn ogystal â phartneriaid addysgol mewn prifysgolion eraill, colegau ac ysgolion; a chyda rhanddeiliaid rhanbarthol o fyd busnes a grwpiau cymunedol. Er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus oherwydd pandemig y Coronafeirws, rydym wedi parhau i ymgysylltu, cefnogi a chreu cyfleoedd cydweithredol gyda'n darparwyr rhanbarthol.

**9** DDIGWYDDIADAU PARTNERIAID RHANBARTHOL WEDI'U CEFNOGI

**10** GYN-FYFYRWYR YN CYFRANOGI MEWN GWEITHGAREDDAU

**61** RANDDEILIAID ALLANOL Y CYSYLLTWYD Â NHW

## Rhaglen Sbarduno Busnes Town Square

Gweithiodd y tîm Mentergarwch gyda TownSq, sef sefydliad sy'n rhoi cymorth i fusnesau Cymru, a ddarparodd **raglen sbarduno busnes i 14 myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe**, er mwyn helpu i gyflymu lansiad eu busnes a gwella eu galluoedd entrepreneuraidd. Roedd y rhaglen yn cynnwys 9 sesiwn ynghylch entrepreneuriaeth, a wnaeth ddatblygu eu sgiliau, helpu'r sawl ar y cwrs i deimlo'n fwy hyderus am ddechrau busnes a **chefnogi 5 myfyriwr i lansio eu busnes**.



## 4theRegion

Mae Prifysgol Abertawe yn parhau i gefnogi a chydweithio â 4theRegion, sef sefydliad lleol sy'n dod â busnesau rhanbarthol, busnesau newydd myfyrwyr a graddedigion, cymunedau a'r rhai sy'n creu newid ar draws de-orllewin Cymru, at ei gilydd.

## Bŵtcamps Busnes Unpreneur

Er mwyn cefnogi myfyrwyr a graddedigion a oedd am ddatblygu eu syniadau busnes a chefnogi'r rhai a oedd am dyfu eu **busnesau, gweithiodd y tîm Mentergarwch gydag UNpreneur, sef sefydliad sy'n rhoi cymorth i fusnesau, a ddarparodd 2 bŵtcamp busnes i 32 o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe. Cymerodd 23 o fyfyrwyr ran yn y bŵtcamp cyntaf, "Lansio Busnes"**, lle roedd y pynciau'n cynnwys: Meddylfryd entrepreneuraidd; Marchnata; Strwythurau Cwmnïau; a Gosod Nodau. Gwnaeth hyn ddatblygu eu syniadau, gwella gallu entrepreneuraidd y sawl a oedd ar y cwrs, a helpu un myfyriwr i lansio ei fusnes.

Yn cymryd rhan yn yr ail bŵtcamp, **"Tyfu Busnes", roedd 9 o fyfyrwyr a graddedigion a oedd wedi bod yn masnachu** am hyd at 12 mis, a gwnaethant dderbyn yr wybodaeth i helpu i dyfu eu busnesau, meithrin gweithlu effeithlon a mynd i farchnadoedd newydd. Roedd y pynciau'n cynnwys Sgiliau Negodi Hanfodol, Meithrin Tîm, Buddsoddi a Marchnata Uwch, a hefyd cafodd y rhai a oedd yn bresennol gyfle i siarad am eu hanghenion busnes unigol gydag arbenigwyr proffesiynol.

## The Urban Foundry

Mae'r Tîm Mentergarwch wedi bod yn gweithio'n agos gyda The Urban Foundry, sef asiantaeth adfywio creadigol sy'n gweithio yn Abertawe, a honno'n BCorp ardystiedig cyntaf y ddinas. Maent yn darparu gweithdai, adnoddau a hyfforddiant i fusnesau a mentrau cymdeithasol lleol, yn ogystal â chyfleoedd 'dros dro' a digwyddiadau cymunedol ym mannau gwag y ddinas. Bydd eu cysylltiad â Phrifysgol Abertawe yn helpu i ddarparu cymorth ychwanegol a chyfleoedd lleol i fusnesau newydd myfyrwyr fasnachu yn ystod y blynyddoedd i ddod, gan hybu diwylliant busnesau 'dros dro' ac annog mwy o fusnesau newydd yn y rhanbarth. Yn ogystal â hyn, gwnaeth sefydlwr The Urban Foundry, Dr Ben Reynolds, ymuno â'r Tîm Mentergarwch yn 2021 fel Entrepreneur Preswyl. Roedd ei brofiad, ei gysylltiadau a'i wybodaeth am gyfleoedd busnes lleol, yn adnodd amhrisiadwy wrth ddarparu gweithdai a sesiynau cyngor personol i fyfyrwyr entrepreneuraidd yn y Brifysgol.

# GWEITHIO MEWN CYDWEITHREDIAD LEDLED CYMRU



Ers dechrau'r pandemig, mae gweithio'n rhithwir wedi annog cydweithredu ar draws sefydliadau addysg uwch Cymru. Mae'r ymagwedd gydweithredol, rithwir hon wedi parhau i ddatblygu eleni, gan gynnig mwy o ddigwyddiadau Cymru gyfan, hacathons a chyfleoedd rhwydweithio i fyfyrwyr a graddedigion.

## Wythnos Sefydlu Busnes yr Haf

Gwnaeth rhwydwaith yr Hyrwyddwyr Mentergarwch yng Nghymru gynnal Wythnos Sefydlu Busnes yr Haf, a oedd yn cynnwys nifer o weithdai entrepreneuraidd, trafodaethau panel, sesiynau Holi ac Ateb a mwy, gan roi'r sgiliau a'r wybodaeth i gyfranogwyr i ddatblygu, meithrin a thyfu eu syniadau busnes. Roedd yn llwyddiant ysgubol, gan werthu pob un o'r 500 o docynnau i'r digwyddiad, gan gynnwys 56 o fyfyrwyr a graddedigion Prifysgol Abertawe yn cymryd rhan.

## Hacathon Menter Gymdeithasol

Wedi'i drefnu a'i ddarparu gan Ganolfan Gydweithredol Cymru, gwnaeth myfyrwyr a graddedigion o Gymru gymryd rhan mewn hacathon menter gymdeithasol rhithwir ym mis Ebrill, sef Hack of Change, lle gwnaethant ddarganfod y mathau gwahanol o fentrau cymdeithasol, eu pwysigrwydd wrth greu dyfodol cynaliadwy a ffyniannus a sylfeini sefydlu menter, yn ogystal â gweithio ar y cyd wrth ddatblygu a chyflwyno eu syniadau menter gymdeithasol eu hunain. Drwy gymryd rhan yn y digwyddiad, datblygodd **19 o fyfyrwyr Prifysgol** Abertawe ddealltwriaeth well o **entrepreneuriaeth gymdeithasol** a'r camau allweddol sy'n **rhan o ddechrau menter gymdeithasol**.



## Cymysgu a Chyflwyno Syniad

Gwnaeth myfyrwyr a graddedigion o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gymryd rhan yn nigwyddiad rhithwir Cymysgu a Chyflwyno Syniad eleni, i rwydweithio â chymheiriaid, swyddogion mentergarwch ac entrepreneuriaid. Hefyd, bu elfen o gyflwyno syniadau busnes, lle gwnaeth sawl myfyriwr gyflwyno eu syniadau busnes i gael adborth a gwobrau. Gwnaeth **41 o fyfyrwyr o bob cwr o Gymru a 5 myfyriwr o Brifysgol Abertawe gymryd rhan yn y digwyddiad blynyddol**, a wnaeth ofyn iddynt ddefnyddio eu sgiliau rhwydweithio a chyflwyno syniadau.




> Digwyddiad llwyddiannus iawn a chyfle gwych i fyfyrwyr ledled Cymru i gwrdd â myfyrwyr eraill sydd â meddylfryd tebyg a thrafod eu syniadau busnes. Roedd y sesiwn cyflwyno syniadau ar ddiwedd y digwyddiad yn wych hefyd, oherwydd ei bod yn gyfle i unigolion i gyflwyno eu syniadau a chael adborth defnyddiol.
>
> **Alpha Evans – Prifysgol Abertawe**

## Marchnad Myfyrwyr Cymru

Mae'r farchnad ar-lein, sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr a graddedigion Cymru hyrwyddo eu hegin-fusnesau, wedi parhau i dyfu yn 2021, gan alluogi'r sawl ar y platfform i gyrraedd mwy o gwsmeriaid, meithrin sgiliau drwy weithdai ar-lein a chydweithio â chymheiriaid.

## Wythnos Ryngwladol Entrepreneuriaeth
## 8 - 14 Tachwedd 2021

Bu'r Tîm Mentergarwch ym Mhrifysgol Abertawe yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ar-lein a digwyddiadau wyneb yn wyneb ar gyfer Wythnos Ryngwladol Entrepreneuriaeth, y cafodd llawer ohonynt eu cyflwyno ar y cyd â phartneriaid ledled Cymru, wedi'u dylunio i ysbrydoli, addysgu a dathlu popeth sy'n ymwneud ag entrepreneuriaeth. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys cyfres o weithdai gyda'r hwyr i fyfyrwyr ar restr Marchnad Myfyrwyr Cymru, cystadleuaeth rhwydweithio a chyflwyno syniadau Cymru gyfan, 2 bŵtcamp busnes hanner diwrnod i'r sawl a oedd yn lansio neu'n tyfu busnes, astudiaethau achos ar-lein ynghylch entrepreneuriaid, a chyfleoedd profi syniad busnes ar y campws.

# EHANGU EIN CYRHAEDDIAD

Drwy gydol 2021, datblygodd y Tîm Entrepreneuriaeth eu sianeli a'u cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol i gynyddu eu gallu i ymgysylltu â myfyrwyr a denu rhagor o fyfyrwyr sy'n ymddiddori mewn entrepreneuriaeth. O ymgyrchoedd meddiannu'r cyfryngau cymdeithasol i gynnig gwobrau a gweddnewid y sianeli, bu cynnydd gwych mewn ymgysylltu ar draws yr holl blatfformau, gan ein galluogi ni i ehangu ein cyrhaeddiad, rhoi sylw i fusnesau myfyrwyr a hyrwyddo entrepreneuriaeth ym Mhrifysgol Abertawe i dros 20,000 o fyfyrwyr.

**1** YMGYRCH HYRWYDDO GAN GYNNIG **RHODDION AM DDIM** AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

\+

**4** CYFRES INSTAGRAM **"CWRDD Â'N SEFYDLWYR BUSNESAU NEWYDD"**

\+

**8** YMGYRCH MEDDIANNU'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL GYDAG **ENTREPRENEURIAID SY'N FYFYRWYR**

\+

**206 MWY** O DDILYNWYR



# MYFYRWYR YN SIARAD AM EU BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT AC ENTREPRENEURIAETH

Penderfynodd llawer o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe dreulio Blwyddyn Mewn Diwydiant fel rhan o'u gradd, sy'n gallu bod o fudd mawr i'r cwmni sy'n cymryd rhan ac i'r myfyriwr sy'n gweithio i'r cwmni. Yn ogystal â hyn, gall myfyrwyr entrepreneuraidd ddewis treulio eu Blwyddyn Mewn Diwydiant yn gweithio i'w busnesau eu hunain, sy'n darparu profiad uniongyrchol iddynt o gynnal eu cwmnïau eu hunain amser llawn, gan ddatblygu eu galluoedd fel entrepreneuriaid a'u helpu i ddatblygu eu busnesau.

Mae'r gallu i weithio i'n hunain yn TJB Digital Services ar gyfer ein Blwyddyn mewn Diwydiant wedi ein helpu i ddysgu a datblygu nifer eang o sgiliau newydd a sgiliau sydd eisoes gennym ni, ac rydyn ni'n credu y bydd hynny'n ein galluogi'n well yn y dyfodol ac yn helpu twf ein cwmni. Hefyd, rydyn ni wedi bod yn ddigon lwcus i rwydweithio'n rheolaidd â chymorth y Brifysgol mewn sawl digwyddiad a chyfarfod wedi'u trefnu. Mae'r Tîm Mentergarwch wedi'n cynorthwyo drwy gydol y flwyddyn, gan ddangos ffyrdd newydd i ni wella ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn amdanyn nhw. Er bod llawer o waith i'w wneud o hyd yn ystod gweddill y flwyddyn, rydyn ni'n fodlon ar ein cynnydd hyd yn hyn ac yn gobeithio parhau i ddysgu ac ehangu.

**Ben Llewelyn**
Myfyriwr Ail Flwyddyn yn yr Ysgol Reolaeth
a Chyd-sefydlydd TJB Digital Services

Ar hyn o bryd rydw i'n gwneud fy mlwyddyn mewn diwydiant fel entrepreneur yn fy nghwmni fy hun. Enw'r sefydliad yw TEnergise LTD. ac mae'n gwerthu nwyddau ynni adnewyddadwy, fel Gwefrwyr Cerbydau Trydanol ac atebion oddi ar y grid i faniau wedi'u haddasu. Hefyd, rydw i'n dylunio cynnyrch i greu trydan yn y cartref gan ddefnyddio ynni sydd wedi'i wastraffu.

Rydw i'n teimlo fy mod i wedi datblygu fel person mewn sawl ffordd, ac fy mod i wedi ehangu fy ngwybodaeth am fy musnes yn ystod fy Mlwyddyn mewn Diwydiant, sydd wedi bod yn brofiad dysgu gwych yn gyffredinol. Un o brif ganlyniadau'r profiad hwn yw cynnydd yn fy hyder, a gwnes i hynny drwy gyfathrebu â busnesau eraill, ymdrin â chleientiaid a sicrhau cwsmeriaid newydd. Hefyd, gwnes i wella fy sgiliau gweinyddu busnes, rheoli amser, blaenoriaethu, creu gwefannau a marchnata.

**Thomas Stockton**
Myfyriwr Peirianneg Fecanyddol yn ei drydedd flwyddyn
a Chyfarwyddwr TEnergise LTD

# ASTUDIAETHAU ACHOS: TUEDDIADAU NEWYDD YM MAES DECHRAU BUSNES

**Mae busnesau newydd yn allweddol wrth hybu twf economaidd a chreu swyddi, ac yn aml byddant yn sbardun ar gyfer arloesi radicalaidd.**

Yn ystod argyfwng parhaus y coronafeirws (COVID-19), mae busnesau newydd wedi parhau i chwarae rôl hollbwysig ar gyfer economi'r Deyrnas Unedig, gyda llawer o gwmnïau arloesol a busnesau newydd myfyrwyr yn newid i fod yn fusnesau ar-lein a di-gyswllt. Yn ogystal â'r newid hwn i fasnachu ar-lein, mae rhai sectorau wedi gweld twf mawr yn y galw am yn eu gwasanaethau o ganlyniad i'r pandemig, fel gwasanaethau iechyd meddwl a lles a gwasanaethau danfon i'r cartref.

## INTERNIAETHAU MENTERGARWCH

Cyflogwyd tri myfyriwr fel interniaid dros yr haf i gefnogi gwasanaethau a chynigion ar-lein y tîm Mentergarwch, wrth feithrin eu sgiliau proffesiynol ac entrepreneuraidd eu hunain drwy weithio fel rhan o'r tîm.

Gweithiodd **Keval Parmar,** sy'n fyfyriwr Peirianneg Awyrofod yn y drydedd flwyddyn, **ar y Cyfryngau**, gan greu **fideos astudiaethau** achos ynghylch myfyrwyr yn **dechrau busnesau** ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a'r tudalennau gwe Mentergarwch.

**Gwnaeth Charley Birch**, ein Dadansoddwr Data a myfyriwr yn yr ail flwyddyn, helpu i **gasglu a dadansoddi data** ynghylch busnesau newydd diweddar a modiwlau mentergarwch.

Canolbwyntiodd **Sophie Mahoney**, myfyriwr MSc mewn Rheoli Busnes, ar **farchnata ac adnoddau**, gan greu deunyddiau i annog cyfranogiad ychwanegol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfres o **bodlediadau** gydag entrepreneuriaid ym Mhrifysgol Abertawe.



## Lowri Wilkie Wellbeing

Ar hyn o bryd, mae Lowri Wilkie yn cwblhau ei PhD mewn Seicoleg ym Mhrifysgol Abertawe, gan arbenigo mewn seicoleg gadarnhaol a datblygu rhaglenni sy'n gwella lles. Gyda'r wybodaeth o'i chwrs a'i chariad at helpu pobl eraill, sefydlodd Lowri Wilkie Wellbeing, sef gwasanaeth lles ar-lein sy'n darparu dosbarthiadau myfyrio, cyrsiau lleihau straen a mwy, er mwyn gwella iechyd a lles meddyliol ei chleientiaid.

Gweithiodd Lowri gyda'r tîm Mentergarwch er mwyn datblygu ei syniad, a derbyniodd gyllid grant drwy The Big Pitch i helpu i lansio ei busnes, sy'n parhau i dyfu a mynd o nerth i nerth.

**www.lowriwilkie.com**

## DevJob

Mae Tomasz Kobierecki, sy'n fyfyriwr Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol yn ei ail flwyddyn, hefyd yn beiriannydd meddalwedd ac yn entrepreneur brwdfrydig a medrus. Ar ôl cael trafferth wrth sicrhau contractau llawrydd drwy ddulliau traddodiadol, penderfynodd greu ei blatfform swyddi ar-lein ei hun ar gyfer datblygwyr, a chafodd gymorth gan y Tîm Mentergarwch i'w helpu i wireddu ei syniad. Yna cymerodd Tomasz ran yng nghystadleuaeth flynyddol The Big Pitch, lle derbyniodd £1,000 i helpu i lansio ei fusnes, sef DevJob. Mae DevJob yn cefnogi datblygwyr i ddod o hyd i swyddi addas ac yn cefnogi cyflogwyr i ddenu ymgeiswyr hynod gymwys yn effeithlon, drwy algorithmau arloesol a dewisiadau hidlo wedi'u symleiddio sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan gwmnïau uchel eu parch fel Monzo, Starling Bank a Revolut.

**www.devjob.uk**

## Macro Munch

Sefydlwyd Macro Munch, sy'n wasanaeth danfon bwyd iach ar-lein, gan dri myfyriwr o'r Ysgol Reolaeth, Joseph Austin, Liam Mills a Jack Mills. Ar ôl sylwi ar gynnydd mewn archebu bwyd ar-lein yn sgîl y pandemig, a chyda chariad at faetheg, ffitrwydd ac entrepreneuriaeth, gwnaethant ddatblygu syniad ar gyfer gwasanaeth danfon bwyd maethol a defnyddio cyllid grant gan y Big Pitch i helpu i lansio eu busnes yn Abertawe yn gynharach eleni.

**www.macro-munch.co.uk**

# DATHLU LLWYDDIANT



Tîm Menter Prifysgol Abertawe

**Roedd Prifysgol Abertawe** ar restr fer **Gwobrau Times Higher Education 2021** Prifysgol Entrepreneuraidd Ragorol y Flwyddyn

Dewiswyd **Prifysgol Abertawe** i gynnal **Cynhadledd Ryngwladol Addysgwyr Entrepreneuriaeth 2022**






Joelle Drummond

## Gwobrau Menywod mewn Busnes Abertawe

*Enillydd*

Joelle Drummond a Sarah McNena

**www.dropbearbeers.com**



## Gwobrau Busnes Bae Abertawe

*Enillydd*

Joelle Drummond a Sarah McNena

**www.dropbearbeers.com**

*Cystadleuydd ar y rhestr fer*

Alex Coldea

**www.mydill.co.uk**



Alex Coldea

## Gwobrau Busnesau Newydd Cymru 2021

*Cystadleuydd ar y rhestr fer*

Alex Coldea

**www.mydill.co.uk**




Josh Blackhurst

## Gwobrau Entrepreneuriaeth Santander X 2021

*Cystadleuydd y Rownd Cyn-derfynol*

Josh Blackhurst

**www.letzee.co.uk**

# BETH A DDYWEDODD EIN MYFYRWYR...

Mae'r tîm mentergarwch ym Mhrifysgol Abertawe wedi bod yn gymorth enfawr i ni a'n busnes. O ddyfarnu cyllid y Big Pitch i ni y llynedd, a oedd yn gymorth enfawr i ni wrth sefydlu ein busnes, i drefnu cyfarfodydd personol buddiol gyda'r entrepreneur preswyl. Ar ben hynny i gyd, maen nhw bob amser ar gael i sgwrsio a rhannu gwybodaeth werthfawr am fusnes. Fyddai TJB Digital Service ddim lle rydyn ni heddiw oni bai am y tîm rhagorol hwn, ac rydyn ni'n ddiolchgar dros ben iddynt.

**Josh Vincent, Tom Beatty, Ben Llewellyn**
TJB Digital Services

Mae'r tîm mentergarwch wedi bod yn gefnogol iawn eleni. Maen nhw wedi fy ngwahodd i sesiynau rhwydweithio ac wedi anfon cyfleoedd i mi o ran hyfforddiant a gweithdai. Mae'r tîm hefyd wedi dangos eu cymorth ar gyfer fy mhrosiect drwy rannu fy nghynnwys ar-lein a thrwy ddod i sesiynau ffotograffiaeth ar gyfer fy natganiadau i'r wasg. Yn ddiweddar, gwnaethon nhw roi adborth defnyddiol iawn i mi ynghylch cais am gyllid, a rhannu gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd gan y Brifysgol i'w gynnig hefyd. Ar y cyfan, rydw i'n hynod ddiolchgar i gael cymorth y tîm, ac rydw i'n gwerthfawrogi eu hamser a'u hymdrech wrth helpu myfyrwyr sy'n entrepreneuriaid fel minnau i deimlo'n fwy hyderus.

**Saadia Abubaker**
Saadia Speaks

Ar y cyfan, mae'r tîm mentergarwch wedi bod yn gyfeillgar ac yn gefnogol iawn, gan gynnig dealltwriaeth sy'n berthnasol i fy niwydiant a chyfleoedd i ddatblygu syniadau wrth siarad â gweithwyr proffesiynol. Rydw i hyd yn oed wedi derbyn atgyfeiriadau ar gyfer gwaith, sydd wedi bod yn ddefnyddiol dros ben wrth sefydlu fy ngwaith. Diolch yn fawr i chi i gyd!

**Louie Ablett**
Equity Marketing

Mae'r Tîm Mentergarwch yn gwneud gwaith gwych wrth gael ein troed yn y drws yn y byd entrepreneuraidd, o gyngor pwrpasol ar sefydlu busnes, gweithdai ynghylch dechrau busnes a chyfleoedd cyllido.

**Kahlilur Rahman**
Rhmnuk



# BETH EIN DWEUD CYDWEITHWYR...

Rydyn ni wedi cael adborth gwych gan ein myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ynghylch sesiynau Entrepreneuriaeth y Tîm Mentergarwch, a gafodd eu cynnal mewn modd hynod frwdfrydig a bywiog, ac roedd eu brwdfrydedd ar gyfer eu gwaith a'r hyfforddiant yn amlwg iawn. Hefyd, gwnaethon nhw lwyddo i gael myfyrwyr tawel iawn i gymryd rhan mewn trafodaeth, ac agor eu llygaid i gyfleoedd eraill a ffyrdd o feddwl am greadigrwydd. Roedd llawer o bobl yn cytuno 'nad yw pob llwybr yn arwain at y byd academaidd'.

**Rhian Morris**
Pennaeth Ymchwil Ôl-raddedig Interim

Mae Kelly Jordan, Uwch-swyddog Cymorth Mentergarwch, wedi cefnogi'r modiwl Peirianneg Blwyddyn 1 "Dylunio ar gyfer Pobl" am y 2 flynedd diwethaf. Yn ystod yr wythnos, mae'r myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau i ddarparu atebion dylunio arloesol. Gwnaeth Kelly gynnig cyngor i fyfyrwyr ar y ffordd orau o gyflwyno eu syniadau yn ogystal â sesiwn ynghylch y camau nesaf. Y canlyniad oedd llawer o fyfyrwyr yn cysylltu â'r tîm Mentergarwch am ragor o gymorth i sefydlu eu busnesau eu hunain. Roedd hi'n amlwg eu bod nhw wir wedi mwynhau sgwrs Kelly!"

**DR Natalie Wint**
Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg, Uwch-ddarlithydd

Mae hi wedi bod yn bleser gweithio gyda Kelly, Angus a'r Tîm Mentergarwch a chwrdd â'r myfyrwyr maen nhw'n gweithio gyda nhw. O ddigwyddiad y 'Big Pitch' a wnaeth arddangos cyfres o syniadau gwych gan y myfyrwyr - rhai ohonyn nhw eisoes yn fentrau llwyddiannus - i'r sesiynau personol rydyn ni wedi'u cynnal drwy'r cynllun Entrepreneur Preswyl, mae hi wedi bod yn wych clywed gan y genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid a rhoi mewnbwn iddyn nhw. Fel cyn-fyfyriwr y Brifysgol, mae hi wedi bod yn hyfryd cymryd rhan yn y sefydliad eto.

**DR Ben Reynolds**
Sefydlwr The Urban Foundry ac Entrepreneur Preswyl

# RHESTR O FUSNESAU NEWYDD 2021

### A1 Osteopathy
**Yasmine Harrison**
Gofal osteopathig
a1-osteopathy.co.uk

### Affiliate Marketing Coaching
**Kamil Krzyszkowski**
Busnes hyfforddiant marchnata i gysylltiadau

### Air View Engineering Ltd
**Simon Oliver**
Atebion Dal Carbon
airviewengineering.co.uk

### Aktiv Events
**Georgios Tspios**
Gwasanaeth ffrydio digwyddiadau
aktiv.events

### Prosiect Alaw
**Amana Biag**
Elusen lles ar gyfer grwpiau lleiafrifol

### D4 Marketing
**Matt Leclerc**
Cwmni ymgynghori marchnata

### The Dead Good Club
**Joshua Williams**
Toesenni feganaidd a heb laeth
Facebook @thedeadgoodclub

### Devjob.uk
**Tomasz Kobierecki**
Platfform swyddi i ddatblygwyr
devjob.uk

### Doodledots
**Rinal Gudhka**
Lluniau celf a wnaed â llaw
Facebook @doodledots

### DRJ Valeting
**Daniel Jones**
Busnes glanhau cerbydau
drjvaleting.com

### The Elite Coaching Program
**Holly Jones**
Rhaglen hyfforddi iechyd, ffitrwydd a deiet
hollyisobel.com/elite-performance-coaching

### Empower Me Clothing
**Emily Jones**
Siop ddillad ar-lein
Facebook @EmpowerMeShop

### Equity Marketing Group
**Louie Ablett**
Busnes ymgynghori marchnata

### Fightwear Store
**Daniel Huxtable**
Busnes dillad cicfocsio pwrpasol
fightwearstore.co.uk

### Garments of Eden
**Nia Gaskin**
Busnes dillad moesegol
garmentsofeden.co.uk

### Georgia Petrou Limited
**Georgia Petrou**
Gwasanaeth cynorthwy-ydd creadigol rhithwir
the-dots.com_Georgia Petrou

### Georgia Wilkes Translation
**Georgia Wilkes**
Cyfieithydd Sbaeneg llawrydd

### GIG Clothing
**Prince Emeka**
Siop ddillad ar-lein
Facebook @gigclothingline

### Girls in Marketing
**Hannah Victoria**
Cwmni ymgynghori marchnata i fenywod
girlsinmarketing.com

### GoGreenCase.com
**Freddie Bowes**
Cesys ffôn ecogyfeillgar ar-lein
gogreencase.com

### Guitar Supplies Ltd
**James Smart**
Trwsio gitarau a nwyddau gitâr
guitarsupplies.co.uk

### Horny Vegan Clothing
**Eiren Donnelly**
Siop ddillad ar-lein
hornyvegan.co.uk

### Kim Football
**Seokjin Kim**
Ategolion pêl-droed
Facebook @kimfootball

### Knowledge-Fitness
**Kimberley Farrugia**
Hyfforddiant ffitrwydd
Instagram @kf_knowledge_fitness



### Life of KP
**Keval Parmar**
Fideos a chynnwys cyfryngau ar gyfer priodasau
lifeofkp.myportfolio.com

### LitterAware
**Dafydd Jones**
Sefydliad atal taflu ysbwriel
litteraware.org

### Little Bug Prints
**Rebecca Morgan**
Dillad wedi'u personoli i fabanod
littlebugprints.co.uk

### Longevity Supplies LTD
**Christian Hoeh**
Gwerthwr atchwanegiadau bwyd ar-lein

### Lowri Wilkie Wellbeing
**Lowri Wilkie**
Hyfforddiant lles
lowriwilkie.com

### Macro Munch
**Joseph Austin, Liam Mills, Jack Mills**
Tecawê Bwyd Iach
macro-munch.co.uk

### Maker Maya
**Maya Korouei**
Nwyddau Crosio a wnaed â llaw
Facebook @maker.maya

### Market Leap Digital
**Teyte Rudman**
Gwasanaethau rheoli marchnata digidol
marketleapdigital.co.uk

### MOMO Skinn
**Moda Alburayhe**
Cyngor ar ofal croen
Facebook @Momo Skin

### Norish With Nish
**Ines Teixeria Dias**
Cyngor ar faeth, a chynnyrch
nourishwithnish.com

### Rave Nation
**Jan Mestek**
Trefniadau ar gyfer gwyliau
theravenation.com

### Razor Sharp Streetwear
**Ross Hutchins**
Platfform prynu a gwerthu dillad
razorsharpstreetwear.com

### Rhmnuk
**Kahlilur Rahman**
Brand dillad ar-lein
rhmnuk.com

### Saadia Speaks
**Saadia Abubaker**
Gwasanaeth hunangymorth a lles ar-lein
saadiaspeaks.co.uk

### Scrunchie's by Jess
**Jess Smith**
Busnes crefftau a wnaed â llaw

### Sisuforce
**Gareth Morgan**
Hyfforddiant ffitrwydd a lles
sisuforce.com/mindforce

### Smashy Swan
**Soo-Leng Yeap**
Gwerthu celf a digwyddiadau ar-lein
smashyswan.com

### The Sustainability Movement Ltd
**Simon Banks**
Siarter Cynaliadwyedd Prifysgolion

### TEnergise LTD
**Thomas Stockton**
Manwerthu
tenergise.co.uk

### TG Trains
**Thomas George**
Hyfforddiant ffitrwydd
tgtrains.com

### TJB Digital Marketing
**Josh Vincent, Tom Beatty, Ben llewwellyn**
Datblygwyr gwefannau
tjbdigitalservices.com

### Todd's Attire
**Todd Whichello**
Siop hen ddillad
depop.com/toddsattire

### Vegan Filth
**Natasha Moore**
Bwyd Sothach Feganaidd
veganfilth.co.uk






Swansea University
Prifysgol Abertawe

# MENTER MYFYRWYR

## ADRODDIAD EFFAITH 2021

I weld mwy o'n harlwy ewch i
myuni.swansea.ac.uk/cy/cyflogadwyedd-menter